

# Cwestiynau cyffredin

## Cwricwlwm i Gymru: dysgu sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

### Beth yw dysgu sylfaen?

Yn dilyn rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith ym Medi 2022, cafodd defnydd o'r term 'Cyfnod Sylfaen' (a 'chfnodau allweddol') ei ddileu o'r cwricwlwm i adlewyrchu continwmm o ddysgu heb gyfnodau.

Mae dysgu sylfaen yn rhan o Gwricwlwm i Gymru 3 i 16 a'i fwriad yw adlewyrchu anghenion dysgu a datblygu penodol plant hyd at 8 oed neu ddysgwyr sydd ag anghenion datblygiadol ychwanegol.

Mae dysgu sylfaen yn canolbwyntio ar y dulliau addysgu a dysgu addysgegol sy'n sgaffald ar gyfer dysgu a datblygiad pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar, neu ddysgwyr a allai fod ag anghenion datblygiadol tebyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd rydyn ni, fel Llywodraeth Cymru, a'n partneriaid yn ei roi ar y cyfnod unigryw hwn o addysgu a dysgu, gyda'i nod i gefnogi ymarferwyr mewn trafodaethau cyson i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn.

### A yw'r term 'dysgu sylfaen' yn disodli'r 'Cyfnod Sylfaen'?

Nid yw'r term 'dysgu sylfaen' yn union gyfystyr â'r term 'Cyfnod Sylfaen' a bydd y derminoleg a ddefnyddir yn dibynnu ar y cyd-destun.

Dyma rai enghreifftiau o sut y gellid defnyddio terminoleg yng Nghwricwlwm i Gymru.

- Gallai 'Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer plant 3 i 7 oed yng Nghymru' newid i 'Cwricwlwm 3 i 16 i bob dysgwr yw Cwricwlwm i Gymru'.
- Gallai 'Gellir cael gafael ar ddysgu proffesiynol i gefnogi dealltwriaeth o addysgeg y Cyfnod Sylfaen drwy Hwb' newid i 'Mae modd cael gafael ar ddysgu proffesiynol i gefnogi dealltwriaeth o addysgeg dysgu sylfaen drwy Hwb'.
- Gallai 'Gellir darparu'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion neu leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir' newid i 'Gellir darparu addysg feithrin mewn ysgolion neu leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir'.

Efallai y bydd angen newid terminoleg 'meithrinfa y Cyfnod Sylfaen' hefyd yn dibynnu ar y cyd-destun.

- Gallai 'Mae plant yn gymwys i dderbyn darpariaeth meithrin y Cyfnod Sylfaen ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed' newid i 'Mae plant yn gymwys i gael addysg feithrin ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed'.
- Defnyddiwch 'meithrin' wrth gyfeirio at y 'dosbarth' neu'r 'adeilad' y mae'r plentyn ynddo.
- Defnyddiwch 'plant 3 a 4 oed' wrth gyfeirio at oedran plentyn tra ei fod yn 'meithrin'.

# Cwestiynau cyffredin

## Trefniadau cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgu sylfaen

### Pa ganllawiau sydd ar gael i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall addysgeg dysgu sylfaen yng Nghwricwlwm i Gymru?

#### Cwricwla ysgolion

Mae'r fframwaith [Cwricwlwm i Gymru](#) yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain, gan ystyried barn rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol.

Er mwyn cefnogi dulliau dysgu sylfaen, rydyn ni wedi cyhoeddi canllawiau [Galluogi dysgu](#) i gefnogi ysgolion wrth iddyn nhw ddatblygu eu cwricwlwm ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod sy'n arwain at Gam cynnydd 1.

#### Trefniadau asesu ysgolion

Mae dull o fynd ati i asesu hefyd wedi newid i sicrhau cynnydd ar hyd continwmm dysgu o 3 i 16 oed.

Mae asesiadau crynodol ar ddiwedd cyfnod neu ar ddiwedd cam wedi'u dileu gan ganolbwyntio'n gryfach ar asesu dysgu yn barhaus. Mae'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod mai ysgolion sydd yn y lle gorau i ddylunio'r trefniadau asesu mwyaf priodol ar gyfer eu dysgwyr a'u cyd-destunau.

Dylai asesu helpu ymarferwyr i benderfynu beth mae dysgwyr yn ei wybod, ei ddeall a'r hyn y maen nhw'n gallu ei wneud, yn ogystal â chefnogi addysgu a dysgu. Ni ddylid ei ddefnyddio i fesur perfformiad ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Mae'r canllawiau [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#) yn amlinellu egwyddorion allweddol a diben asesu, gan gydnabod ei swyddogaeth greiddiol sef galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio yn unol â hynny.

#### Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Rydyn ni wedi cyhoeddi [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#). Mae wedi'i gynllunio gan y sector ac ar ei gyfer, a chafodd ei lunio ar y cyd gydag ymarferwyr mewn lleoliadau ynghyd ag arbenigwyr ym maes datblygiad plant ac addysg gynnar.

Dylai darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir fabwysiadu'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i gefnogi cynllunio ar gyfer dysgu a datblygiad plant unigol sy'n cael eu haddysg feithrin yn eu lleoliadau.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir wedi cael ei ddatblygu i gefnogi dysgwyr ar ddechrau'r continwmm dysgu 3 i 16, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n cefnogi dysgu a datblygiad y dysgwyr hyn i sicrhau eu bod nhw'n cael y dechrau gorau posib ar eu taith dysgu.

# Cwestiynau cyffredin

## Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Rhaid i ddarparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir wneud trefniadau ar gyfer asesiadau cychwynnol a pharhaus sy'n cefnogi cynnydd plant yn eu lleoliad, a rhoi'r trefniadau hynny ar waith. Gan ddefnyddio egwyddorion [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#), rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i lunio trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau ar y cyd er mwyn ategu eu cwricwlwm sy'n amlinellu'r ffyrdd mwyaf priodol o asesu a chefnogi cynnydd.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar y [trefniadau asesu drafft](#) ar 30 Medi 2022 a bydd yn dod i ben ar 23 Rhagfyr 2022. Cyhoeddir y trefniadau asesu terfynol erbyn mis Medi 2023.

Rhwng mis Medi 2022 a chyhoeddi'r trefniadau asesu terfynol yn 2023, mae disgwyl i leoliadau ddefnyddio trefniadau asesu priodol ar gyfer eu dysgwyr gan ddefnyddio'r trefniadau drafft i'w helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a gweithredu trefniadau asesu cychwynnol.

## A gaiff ysgolion ddefnyddio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a'r trefniadau asesu drafft wedi'u cynllunio i'w defnyddio mewn lleoliadau yn unig. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod y gallai ysgolion weld yr egwyddorion o gymorth wrth ddatblygu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain ar gyfer cefnogi dysgwyr iau yn ystod y cyfnod hwn o ddysgu.

## A yw'r deuddeg egwyddor addysgegol yng Nghwricwlwm i Gymru yn wahanol i'r addysgeg yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Mae [deuddeg egwyddor addysgegol](#) Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori drwy'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir yn adeiladu ar yr egwyddorion hyn drwy dynnu sylw at agweddau penodol ar arferion addysgegol, sy'n arbennig o bwysig i ddysgwyr ar ddechrau'r continwmm 3 i 16.

## Allwch chi esbonio'r newidiadau i derminoleg flaenorol y Cyfnod Sylfaen a sut mae hyn yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru?

Mae datblygu'r canllawiau [Galluogi dysgu](#) a'r [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#) wedi rhoi cyfle i ni ystyried sut i ddisgrifio arfer a darpariaeth. Er enghraifft, roedd addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at 'ddarpariaeth barhaus', 'darpariaeth wedi'i chyfoethogi' a 'thasgau ffocws'. Tra nad yw'r derminoleg hon yn ymddangos yn nogfennau Cwricwlwm i Gymru, dylai addysgeg ac arferion da'r Cyfnod Sylfaen barhau.

# Cwestiynau cyffredin

Rydyn ni wedi cryfhau'r iaith a ddefnyddir yn nogfennau'r cwricwlwm i gefnogi addysgeg drwy ganolbwyntio ar yr egwyddorion allweddol sy'n hanfodol ar gyfer dysgu holistaidd ac ystyrion. Mae'r 'elfennau sy'n galluogi dysgu' yn rhan greiddiol o hyn – oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol – ac maen nhw'n gysylltiedig â'i gilydd, a'r cysylltiad rhyngddyn nhw sy'n allweddol ar gyfer addysgu a dysgu ar draws Cwricwlwm i Gymru.

Er nad yw darpariaeth barhaus, darpariaeth wedi'i chyfoethogi a thasgau ffocws yn trosglwyddo'n uniongyrchol, maen nhw'n allweddol i addysgeg dysgu sylfaen llwyddiannus o fewn yr elfennau sy'n galluogi dysgu. Nid yw pwysigrwydd y rhyngweithio rhwng oedolion, amgylcheddau a phrofiadau felly yn gyfyngedig i blant 3 i 7 oed ac o ganlyniad mae'n gwireddu'r uchelgais o gontinwmm dysgu 3 i 16.

## A fydd templedi yn cael eu darparu i gynorthwyo â'r gwaith o gyflwyno a gweithredu?

Nid rhaglen 'oddi ar y silff' i'w chyflwyno yw Cwricwlwm i Gymru. Cynlluniwyd [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#) a chanllawiau [Galluogi dysgu](#) i gefnogi ymarferwyr i ddarparu addysg gynnar effeithiol. Mae profiadau sy'n ennyn diddordeb o fewn amgylcheddau effeithiol sy'n ymateb i ddiddordebau plant ac yn ennyn rhagor o ddiddordeb ganddyn nhw yn eu dysgu a'u datblygiad yn sylfaen i'r addysgeg hon. Dylai oedolion sy'n galluogi dysgu ddod i adnabod plant a chynllunio yn y ffordd sy'n gweddu orau iddyn nhw, gan roi cynnig ar wahanol ddulliau o fewn y lleoliad a'u hadolygu.

Rydyn ni'n cydnabod y gallai ymarferwyr fod angen rhagor o gymorth dysgu proffesiynol i weithredu trefniadau cynllunio ac asesu. Bydd staff ymgynghorol o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, yn ogystal â sefydliadau ambarél cenedlaethol, yn cefnogi lleoliadau i weithredu'r cwricwlwm a threfniadau asesu interim dros y misoedd nesaf.

## Pa adnoddau sydd ar gael i gefnogi ymarferwyr mewn dulliau addysgegol dysgu sylfaen?

### Ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Mae modiwlau [Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau](#) ar gael ar Hwb. Bydd y rhain yn cefnogi ymarferwyr i fyfyrion ar ymarfer a darpariaeth wrth ddarparu'r cwricwlwm. Maen nhw'n seiliedig ar 6 thema:

- dysgu dilys a phwrpasol
- datblygiad plant
- arsylwi
- dysgu yn yr awyr agored
- chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae
- cyfnodau pontio

# Cwestiynau cyffredin

## Lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Mae modiwlau ychwanegol [Dysgu proffesiynol: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir hefyd](#) ar gael i gefnogi lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir wrth roi eu cwricwlwm ar waith. Dyma teitlau'r modiwlau:

- Deall Cwricwlwm i Gymru a datblygiad cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Deall y pum llwybr datblygu ac addysgeg
- Datblygiad sgematig
- Arweinyddiaeth mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir

## Cyflwyno modiwlau dysgu proffesiynol yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir

### A yw'n orfodol defnyddio'r modiwlau?

Mae'r modiwlau wedi'u cynllunio i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r cysyniadau craidd sy'n sail i arferion addysgegol effeithiol ar gyfer dysgu sylfaen, yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru gan gynnwys y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Nid yw'n orfodol defnyddio'r modiwlau, ond bydden ni'n disgwyl i staff ac ymarferwyr ddeall egwyddorion craidd y modiwlau i helpu i sicrhau gweithredu'r trefniadau Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

### Pryd y bydd disgwyl i staff ac ymarferwyr ddefnyddio'r modiwlau?

Dylai awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a sefydliadau ambarél cenedlaethol sy'n cefnogi lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir gynllunio dull addas ac amserlen briodol o ran helpu ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod dysgu o'r modiwlau yn cefnogi arfer pob ymarferydd, fel rhan o raglen barhaus o ddysgu proffesiynol.

Ni ddylid ystyried dysgu o'r modiwlau fel digwyddiad untro. Rydyn ni'n annog ymarferwyr i ailedrych ar eu dysgu'n rheolaidd ac i adnewyddu eu dealltwriaeth wrth ystyried arferion parhaus ac esblygol.

Gall arweinwyr ac ymarferwyr ddewis datblygu eu dealltwriaeth drwy ddefnyddio'r modiwlau ar adeg ac ar gyflymder sy'n gyfleus iddyn nhw.

# Cwestiynau cyffredin

## A oes ffordd o ddefnyddio sesiynau ar wahân o'r modiwlau heb orfod mynd i mewn i bob rhestr chwarae?

Rydyn ni wedi ychwanegu 'Cysylltiadau cyflym' at y cardiau adnodd ar gyfer y modiwlau dysgu proffesiynol. Maen nhw'n amlinellu'r holl sesiynau sydd ar gael gyda dolenni at bob sesiwn, ac yn cynnwys amcangyfrif o'r amser sydd ei angen i'w gwblhau. Dylai hyn roi hyblygrwydd i ddewis ar ba sesiynau i ganolbwyntio, yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a'r wybodaeth a'r sgiliau y maen nhw'n ceisio'u datblygu.

- [Dysgu proffesiynol: cefnogaeth dysgu sylfaen ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau](#)
- [Dysgu proffesiynol: Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#)

## A yw defnyddwyr yn gallu lawrlwytho'r rhestrau chwarae i'w defnyddio all-lein?

Nid yw'r gallu i lawrlwytho rhestrau chwarae i'w defnyddio all-lein ar gael drwy Hwb. Gall defnyddwyr sydd â chyfrif Hwb lawrlwytho'r rhestr chwarae. Fodd bynnag, dim ond ar-lein y byddai'r opsiwn hwn ar gael ac ni fyddai hwn chwaith yn caniatáu mynediad at y rhestr chwarae all-lein.

## A oes achrediad ar ôl cwblhau'r modiwlau?

Nid oes achrediad ffurfiol am gwblhau'r modiwlau. Fodd bynnag, mae gan bob modiwl dystysgrif i ddangos eich bod wedi cymryd rhan. Gellir cadw'r rhain ar gyfer eich cofnod dysgu proffesiynol.

## A fydd cymorth ariannol i gyflwyno'r modiwlau i ymarferwyr?

Mae cyllid ar gael i helpu i roi'r cwricwlwm ar waith mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol a Grant Gwella Addysg Llywodraeth Cymru.

## A oes dull safonol ar gyfer cyflwyno'r modiwlau?

Nid oes dull safonol o'u darparu. Dylai partneriaid fod â dealltwriaeth glir o anghenion ymarferwyr a byddan nhw'n dymuno ystyried y dull mwyaf priodol o'u cyflwyno er mwyn gwreiddio'r dysgu.

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu astudiaethau achos i ddangos dulliau o gefnogi ymarferwyr sy'n dysgu o'r modiwlau. Os oes gennych chi astudiaeth achos y gellid ei defnyddio, cysylltwch â ni ar [DysguSylfaen@llyw.cymru](mailto:DysguSylfaen@llyw.cymru)

# Cwestiynau cyffredin

## **Yn ogystal â'r fideos a'r astudiaethau achos o fewn y modiwlau, a fydd deunyddiau ychwanegol ar gael i gefnogi dealltwriaeth?**

Mewn rhai achosion, efallai y bydd partneriaid yn meddwl ei bod yn briodol darparu enghreifftiau neu ddeunyddiau atodol yn seiliedig ar wybodaeth ac ymarfer lleol. Wrth i arfer esblygu, byddwn ni'n diweddarau astudiaethau achos ac enghreifftiau i sicrhau eu bod nhw'n adlewyrchu'r enghreifftiau gorau o arfer effeithiol.

## **A fydd deunyddiau pellach yn cael eu darparu i helpu staff os ydyn nhw'n dymuno darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y modiwlau?**

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu adnoddau cymorth ar gyfer y modiwlau i gefnogi hyfforddiant parhaus. Fodd bynnag, nid oes bwriad i'r deunyddiau hyn fod yn rhagnodol nac yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r prif negeseuon yn llwyddiannus. Rydyn ni'n annog partneriaid i ystyried sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn yn unol â'r dull cyflwyno sydd orau gennych chi er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn cymryd rhan ac yn manteisio arnyn nhw.

## **A fydd sefydliadau hyfforddi athrawon yn ymgymryd â hyfforddiant ar y modiwlau?**

Mae sefydliadau addysg uwch wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r modiwlau presennol a'r rhai ychwanegol, ac wedi bod yn y sesiynau hyfforddi. Mae'r adborth cynharaf a gafwyd yn cadarnhau eu bod nhw'n defnyddio ac yn hyrwyddo'r modiwlau fel rhan o'u cyrsiau i ymarferwyr a'u cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

## **Arolygiaethau**

### **A yw Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu canllawiau ac adnoddau'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir ac wedi cael hyfforddiant?**

Rydyn ni wedi cadw cysylltiad agos gydag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) drwy broses o ddatblygu canllawiau a modiwlau cymorth ar gyfer y cwricwlwm.

Mae'r arolygiaethau'n cydnabod mai taith ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac ymarferwyr yw gweithredu'r cwricwlwm. Maen nhw'n deall y bydd newid i'r cwricwlwm yn digwydd dros amser.

Mae Estyn yn defnyddio astudiaethau achos, lle bo hynny'n addas, i annog arfer effeithiol ac mae Estyn ac AGC wedi mynd i sesiynau dysgu proffesiynol i gefnogi'r broses arolygu.

# Cwestiynau cyffredin

## Sut fydd arolygiadau Estyn ac AGC yn ystyried y modiwlau yn eu harolygiadau?

Mae Estyn ac AGC yn croesawu cyhoeddi'r modiwlau i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r cysyniadau craidd sy'n sail i arferion dysgu cynnar effeithiol. Ni fydd arolygiadau'n archwilio gweithredu'r modiwlau, p'un a yw lleoliadau wedi defnyddi'r modiwlau neu ddealltwriaeth ymarferwyr ohonyn nhw yn ystod arolygiadau.

Fodd bynnag, byddai Estyn ac AGC yn awyddus i glywed sut mae lleoliadau wedi ymdrin ag unrhyw ddysgu proffesiynol, gan gynnwys defnyddio'r modiwlau, i ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol a'r cwricwlwm.

## Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr

### A fydd gwybodaeth yn cael ei darparu i gefnogi dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o newidiadau i'r cwricwlwm sy'n effeithio ar ddysgwyr iau?

Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gyfleu newidiadau i'r modd y bydd gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar ddysgwyr iau, a byddwn ni'n parhau i wneud hynny.

Rydyn ni'n datblygu pecyn cymorth o adnoddau i gefnogi awdurdodau lleol ac eraill wrth gyfathrebu â rhieni a gofalwyr er mwyn sicrhau cysondeb o ran negeseuon. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n cyfathrebu presennol am Gwricwlwm i Gymru a bydd yn cynnwys posteri, cylchlythyrau, negeseuon allweddol, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac atgyfeirio pellach ar-lein drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Rydyn ni wedi cyhoeddi dau fideo i helpu lleoliadau, ysgolion ac ymarferwyr i gefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall sut mae addysg yn newid i ddysgwyr iau.

- [Cwricwlwm i Gymru: Addysg feithrin i blant 3 a 4 oed](#)
- [Cwricwlwm i Gymru: Addysg gynnar i blant rhwng 5 ac 8 oed](#)

Byddwn ni'n hyrwyddo adnoddau pellach sy'n cael eu cynhyrchu – gan gynnwys diweddariad i'r canllaw presennol ar gyfer rhieni a gofalwyr i ddarpariaeth meithrin Cyfnod Sylfaen – wrth iddyn nhw gael eu cyhoeddi.

## Diweddariadau pellach i'r 'Cwestiynau cyffredin'

Byddwn ni'n parhau i fonitro ac adolygu'r 'Cwestiynau cyffredin' a byddwn ni'n eu diweddarau'n rheolaidd.

Os oes unrhyw broblemau eraill rydych chi'n credu bod angen i ni fynd i'r afael â nhw, cysylltwch â ni drwy [DysguSylfaen@llyw.cymru](mailto:DysguSylfaen@llyw.cymru)